Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerc@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ynys Wen
**7.00yh 31/03/2026**
yn adeilad y Pafiliwn, Parc Mwd

Minutes of the Ynys Wen Committee
**7.00pm 31/03/2026**
at the Pavillion building, Parc Mwd

**Presennol**
Cynghorwyr:
W Rogerson MBE (Cadeirydd) G Browne MBE
A Walker N Tuck

**Present**
Councillors:
W Rogerson MBE (Chair) G Browne MBE
A Walker N Tuck

**Hefyd yn bresennol**
A Jones Clerc

**Also present**
A Jones Clerk

1. **Croeso**
Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Cafwyd ganiatad gan pawb yn bresennol i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

**Welcome**
Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.
Permission was granted by all present to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

2. **Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. M Swaine-Williams

**Apologies**
Apologies accepted by Cllr. M Swaine-Williams

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 04/11/2025 a materion yn codi**
<u>Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:</u>
Nodwyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 17 Rhagfyr 2025.
<u>Materion yn Codi:</u>
Adolygodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a nodwyd fod gwaith ar y cerrig beddi rhydd wedi'i gwblhau gan yr ymgymerwyr angladd, gyda un garreg fedd yn parhau ar y ffin. Nodwyd hefyd fod y fainc i'w disodli yn ystod y flwyddyn ariannol newydd, bod y cynnydd mewn ffioedd yn dod i rym o 1 Ebrill, bod yr arwydd mynediad newydd wedi'i osod, a bod canllawiau diwygiedig y fynwent wedi'u cyhoeddi ar y wefan.

**Minutes of the last meeting 04/11/2025 and matters arising**
<u>Minutes of the Previous Meeting:</u>
The minutes of the previous meeting were noted as having been approved by Full Council on 17 December 2025.
<u>Matters Arising:</u>
The Chair revised the minutes of the previous meeting and noted that the loose headstone work had been completed by the undertakers, with one remaining headstone located on the boundary. It was further noted that the bench replacement is to be carried out during the new financial year, fee increases are in place from 1st April, the new entrance sign has been installed, and the revised cemetery guidelines have been published on the website.

4. **Adroddiad gan yr Ymgymerwyr**
Nid oedd unrhyw ymgymerwyr angladd yn bresennol.

**Report from the Undertakers**
No undertakers were in attendance.

5. **Diweddariad ar y gwaith draenio**
Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc yn cadarnhau bod y contractwr wedi clirio'r pridd a'r ffensys, wedi gosod pyst a rhaff er mwyn atal mynediad, ac wedi cwblhau'r gwaith tarmac ar y pwynt croesi. Nodwyd y bydd gwaith hadu yn cael ei wneud unwaith y bydd y pridd wedi sychu.
**PENDERFYNWYD**: Nodi'r diweddariad.

**Update on drainage works**
An update was received from the Clerk confirming that the contractor had cleared the soil and fencing, installed posts and rope to prevent access, and completed the tarmacking of the crossing point. It was noted that seeding would be carried out once the soil has dried.
**RESOLVED**: That the update be noted.

6. **Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – gwaith cynnal Afon Cleifiog**
Hysbysodd y Clerc yr Aelodau fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi darparu diweddariad yn cadarnhau, oherwydd y gaeaf hynod o wlyb, nad oedd posib i CNC gynnal llawer o'r gwaith torri chwyn blynyddol ar Afon Cleifiog. Nodwyd bod y gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau'r tymor nesaf, ddiwedd mis Awst neu ddechrau mis Medi.
**PENDERFYNWYD**: Nodi'r diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Update from National Resources Wales – Afon Cleifiog maintenance**
The Clerk informed Members that Natural Resources Wales (NRW) had provided an update confirming that, due to the extremely wet winter, they had been unable to undertake much of the annual weed-cutting work on the Afon Cleifiog. It was noted that the work is currently planned to be carried out early next season, in late August or early September.
**RESOLVED**: That the update from Natural Resources Wales be noted.

7. **Cyllid Ynys Wen ar 31/03/2026**
Ystyriodd y Pwyllgor y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ac adolygodd yn gryno gyllideb ddrafft 2026/27. Nodwyd y canlynol:

1. Cyfanswm Incwm £3,388.63
2. Cyfanswm Gwariant £3,768.67
3. Cysoni banc ar 31/03/2026

| | |
|---|---|
| Ynys Wen Charitable Account | £9,767.22 |
| Ynys Wen Reserves | £3,661.85 |

**Ynys Wen Finance at 31/03/2026**
The Committee considered the year-end financial position and briefly reviewed the 2026/27 budget. The following was noted:

1. Income Total £3,388.63
2. Expenditure Total £3,768.67
3. Bank reconciliation at 31/03/2026

| | |
|---|---|
| Ynys Wen Charitable Account | £9,767.22 |
| Ynys Wen Reserves | £3,661.85 |

Trafododd y Pwyllgor hefyd y ddarpariaeth o blac coffa ar gyfer y beddau heb eu marcio yn Ynys Wen, gan nodi bod y mater wedi cael ei ystyried dros nifer o flynyddoedd heb wneud cynnydd.

**PENDERFYNWYD**: Gofyn i'r Clerc gael dyfynbrisiau ar gyfer plac coffa addas ar gyfer y beddau heb eu marcio yn Ynys Wen.

The Committee also discussed the provision of a memorial plaque for unmarked graves at Ynys Wen, noting that the matter had been considered over a number of years without progress.
**RESOLVED:** That the Clerk be requested to obtain quotations for a suitable memorial plaque for the unmarked graves at Ynys Wen.

8. **Adolygu Rheolau Sefydlog Pwyllgor Ynys Wen**

Adolygodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl Pwyllgor Ynys Wen. Cyflwynodd y Cyng Tuck y drafft diwygiedig o'r Cylch Gorchwyl, a chytunodd y Pwyllgor ar fân ddiwygiadau, gan gynnwys dyddiadau cyfarfodydd a

**Review Ynys Wen Committee Terms of Reference**
The Committee reviewed the Terms of Reference of the Ynys Wen Committee. Cllr Tuck presented the amended draft Terms of Reference, and the Committee agreed minor amendments,

chynnwys eitem safonol ar ddatgan buddiannau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Tuck am ei waith.

**PENDERFYNWYD**: Argymell bod y Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

including meeting dates and the inclusion of a standard item for declaration of interest. The Chair thanked Cllr Tuck for his work.
**RESOLVED**: That the revised Terms of Reference be recommended to Full Council for approval.

9. **Adolygiad Gweinyddol o Ganllawiau Mynwent Ynys Wen**
Cynghorodd y Clerc yr Aelodau fod eitem ar yr agenda o'r teitl Adolygiad Gweinyddol o Ganllawiau Mynwent Ynys Wen wedi'i chynnwys fel eitem sefydlog, gan fod y Pwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, er mwyn caniatáu ar gyfer adolygiad rheolaidd o'r cynnwys os bydd angen. Nododd yr Aelodau eu bod yn fodlon ar y canllawiau, a adolygwyd ddiwethaf ar 3 Tachwedd 2025.
**PENDERFYNWYD**: Nodi'r wybodaeth.

**Administrative Review of Ynys Wen Cemetery Guidelines**
The Clerk advised Members that an agenda item entitled Administrative Review of Ynys Wen Cemetery Guidelines had been included as a standing item, as the Committee meets twice yearly, to allow for regular review of the Guidelines if required. Members noted that they were content with the Guidelines, which were last reviewed on 3 November 2025.
**RESOLVED**: That the information be noted.

10. **Cynnig ar gyfer creu Gardd Gofio (AW)**
Derbyniodd y Pwyllgor gynnig gan y Cyng A. Walker ar gyfer creu Gardd Goffa yn Ynys Wen, yr oedd manylion ohono wedi'u cylchredeg i'r Aelodau ymlaen llaw.
**PENDERFYNWYD**: Bod y cynnig yn cael ei archwilio ymhellach, gan gynnwys cynnal ymweliad safle i ystyried lleoliadau ac opsiynau posibl.

**Remembrance Garden Proposal (AW)**
The Committee received a proposal from Cllr A. Walker for the creation of a Remembrance Garden at Ynys Wen, details of which had been circulated to Members in advance.
**RESOLVED**: That the proposal be explored further, including undertaking a site visit to consider potential locations and options.

11. **Unrhyw fater arall**
Yn dilyn cyngor a dderbyniwyd mewn sesiwn hyfforddi Un Llais Cymru (ULlC) cynigiodd y Cyng Tuck y dylai'r Pwyllgor/Cyngor ystyried aelodaeth i'r Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM).
**PENDERFYNWYD**: Bod ymchwil yn cael ei gynnal i'r sefydliad er mwyn pennu ei addasrwydd.

**Any other business**
Following advice received at a One Voice Wales (OVW) training session, Cllr Tuck proposed that the Committee/Council consider membership of the Institute of Cemetery and Crematorium Management (ICCM).
**RESOLVED**: That the organisation be researched to determine its suitability.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8:04yh*

*The meeting ended at 8:04pm*

**Crynodeb o'r argymhellion i'r Cyngor Llawn**

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor Llawn:

1. Cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig Pwyllgor Ynys Wen.

**Summary of recommendations to Full Council**

The Committee recommends that Full Council:

1. Approve the revised Terms of Reference of the Ynys Wen Committee.



Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 317/2526 (cyfarfod 15/04/2026
Approval reference for these minutes: 317/2526 (meeting of 15/04/2026)